Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru - Polisi

Teitl: **POLISI CYSWLLT PRESWYLWYR**

1. Datganiad Polisi

Nod y Polisi hwn yw sicrhau:

a) bod ymgynghoriad yn digwydd ar y cam(au) cywir o'r broses gwneud penderfyniadau
b) cyswllt a chyfranogiad Preswylwyr yn fwy effeithiol a rhagweithiol
c) sicrhau mwy o amrywiaeth yng nghyswllt Preswylwyr
ch) amrywiaeth o ddulliau ar gael ar gyfer cyswllt
d) hysbysu Preswylwyr ar faterion yn gysylltiedig â'r ardal y maent yn byw ynddi
dd) cael a dadansoddi adborth ar gyflenwi gwasanaeth
e) sicrhau bod yr holl staff wedi eu hyfforddi a bod ganddynt ymrwymiad i gyfranogiad Preswylwyr.

2. Cyfrifoldeb

Nid cyfrifoldeb un person yw cynnwys Preswylwyr. Byddwn yn sicrhau y codir ymwybyddiaeth gyda'n staff am y polisi. Byddwn hefyd yn ymdrechu i sicrhau mai nod gorfforaethol y Gymdeithas fydd gwrando a rhoi ystyriaeth i farn Preswylwyr.

Er mwyn i'r holl staff gydnabod fod ganddynt gyfrifoldeb am gyswllt gyda Phreswylwyr, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael gwybod am y manteision i'r Gymdeithas ac i'r Preswylwyr.

3. Cyflwyniad

Mae'r Gymdeithas yn y busnes o ddarparu cartrefi fforddiadwy ar gyfer y bobl hynny sydd angen cartref.

Bydd y Polisi dilynol yn amlinellu sut y byddwn yn cysylltu gyda Phreswylwyr a pha fath o safonau y gall ein Preswylwyr ddisgwyl wrth gymryd rhan ym mhroses benderfynu y Gymdeithas.

4. Amcanion y Polisi

Prif nod y polisi yw cyflawni'r amcanion dilynol:

a) sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer cysylltu gyda Phreswylwyr
b) osgoi ymgynghori er lles ymgynghori a rhoi adborth cyson i'r rhai sy'n cymryd rhan
c) defnyddio canlyniad yr ymgynghoriad ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Gymdeithas
ch) bod yn glir pryd na allwn ymgynghori ond y gallwn roi gwybodaeth
d) arddangos manteision cyfranogiad i'r Gymdeithas a Phreswylwyr fel ei gilydd
dd) cysylltu gyda grwpiau anodd eu cyrraedd.

5. Sut y rhoddwn wybodaeth i breswylwyr

Byddwn yn rhoi gwybodaeth i Breswylwyr am newidiadau i wasanaeth, sut ydym yn perfformio ac unrhyw fater sy'n effeithio ar Breswylwyr. Ni fyddwn yn ymgynghori lle mae gofyniad cyfreithiol i ni ddarparu gwasanaeth er enghraifft. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi adborth ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.

Byddwn yn rhoi gwybodaeth i breswylwyr mewn nifer o ffyrdd.

- Cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol
- Adroddiad Blynyddol
- Llawlyfr Preswylwyr
- Taflenni

6. Sut yr ymgynghorwn gyda phreswylwyr

- Llythyr
- Adolygiadau ar welliannau parhaus mewn gwasanaethau
- Panel Preswylwyr
- Cyfarfodydd/Dyddiau agored
- Ymweliadau personol
- Holiaduron/Arolygon
- Defnyddio technoleg
- Grwpiau ffocws bach
- Cyfarfodydd tŷ

7. Ymgynghori â Phreswylwyr

Byddwn yn ymgynghori ar:

- Newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau
- Polisïau a gweithdrefnau newydd
- Newidiadau i wasanaethau
- Gwaith cynnal a chadw cynlluniedig
- Gwelliannau stad
- Materion eraill sy'n effeithio ar reolaeth cartrefi

8. Cyfranogiad

Gall Preswylwyr gymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd yng ngwaith y Gymdeithas a dylanwadu ar benderfyniadau.

- Dod yn Breswylydd Aelod Bwrdd
- Dod yn aelod o'r Panel Preswylwyr
- Dod yn Gyfranddaliwr
- Ymuno â Chlwb 50 Canolbarth Cymru
- Cymryd rhan yn ein hadolygiadau gwelliant parhaus mewn gwasanaeth

9 Cefnogaeth

Er mwyn galluogi Preswylwyr i gymryd rhan mae'n bwysig cynnig cefnogaeth a hyfforddiant fydd yn galluogi canlyniad effeithiol.

9.1 Byddwn yn ystyried rhoi cefnogaeth ariannol a gweinyddol yn neilltuol i grwpiau cydnabyddedig sydd â Chyfansoddiad a gymeradwywyd yn llawn.

9.2 Ar sail unigol bydd yn ymdrechu i gynnig hyfforddiant lle'n briodol i alluogi Preswylwyr i gymryd rhan lawnach mewn, er enghraifft, Adolygiad Gwasanaeth Gwerth Gorau.

9.3 Byddwn yn talu costau teithio a chostau rhesymol am ofalwyr i Breswylwyr sy'n mynychu unrhyw gyfarfodydd, lle cytunwyd ar hyn ymlaen llaw gyda'r Gymdeithas.

10. Hyfforddiant

Byddwn yn darparu hyfforddiant priodol i staff a Phreswylwyr er mwyn cynyddu i'r eithaf effaith y berthynas rhwng landlord a Phreswylydd.

11. Monitro, Adolygu a Gwerthuso

Caiff effeithlonrwydd y Polisi ei fesur ar sail 'dreigl' i sicrhau ein bod yn cyflawni anghenion Preswylwyr a, lle bo angen, yn gwneud y newidiadau gofynnol.

Byddwn hefyd yn mesur ei effeithiolrwydd drwy fonitro sut yr effeithiodd cyswllt gyda Phreswylwyr ar gyflenwi gwasanaeth, gwelliannau stad a'r hyn y mae Preswylwyr yn ei ystyried fel blaenoriaethau.

Mae'n bwysig ein bod yn monitro pa mor effeithiol yw hyn gyda Phreswylwyr p'un ai drwy'r Panel Preswylwyr, Fforymau Ardal neu Breswylwyr yn gyffredinol.

Yn ogystal â gwneud unrhyw newidiadau ar sail 'dreigl', mae angen i ni gael adolygiad ffurfiol o'r Polisi. Bydd hyn yn digwydd yn flynyddol gyda Phreswylwyr. Byddwn yn rhoi adroddiad ar lwyddiant, neu'n wir fethiannau'r Polisi, o fewn ein Adroddiad Perfformiad blynyddol.

Diben:	Sicrhau: • bod ymgynghoriad yn digwydd • bod cyfranogiad gan Breswylwyr yn fwy effeithlon • mwy o amrywiaeth yng nghyfranogiad Preswylwyr • bod amrywiaeth o ddulliau ar gael ar gyfer cyfranogiad • gweithredu'r Strategaeth Cyswllt Preswylwyr a gytunwyd drwy sicrhau fod ymgynghoriad yn digwydd
Cyfeirnod:	
Dyddiad Cyhoeddi:	Mehefin 2008
Dyddiad Adolygu:	Yn unol gyda'r Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau - Ebrill 2008
Adrannau/Unedau yr effeithir arnynt:	Pob Adran
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Rheoli - Mai 2008
Swyddog Arweiniol:	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheolaeth Tai
Cydymffurfiaeth Statudol	Cod rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai a gofrestrodd yng Nghymru: 2.2.4 Dylai cymdeithasau annog cyswllt preswylwyr
Ffactorau Risg Strategol	